

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r: Pwyllgor Moeseg a Safonau**

**Dyddiad y cyfarfod: 15 Tachwedd 2023**

**Teitl: Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2023/24**

**Diben yr adroddiad: Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor**

### **Beth mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ei wneud?**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel a ganlyn:-

- hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr
- cynorthwyo'r Cynghorwyr i gadw at y Cod Ymddygiad
- cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad
- monitro gweithredu'r Cod Ymddygiad, a
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd roi gollyngiadau, sy'n caniatáu i Gynghorwyr sydd â buddiant mewn eitem benodol o fusnes y Cyngor barhau i gymryd rhan yn y busnes hwnnw.

Efallai y caiff adroddiadau ymchwilio y mae'r Ombwdsmon neu Swyddog Monitro'r Cyngor wedi'u paratoi ynghylch honiadau bod y Cod Ymddygiad wedi ei dorri eu cyfeirio at y Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y gellir penderfynu yn eu cylch.

Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd y cyfrifoldebau uchod mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion.

Mae enghreifftiau o'r math o waith y mae Pwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion yn ei wneud yn cynnwys:

- cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu deunydd hyfforddi ar y Cod, gan gynnwys siart llif sy'n rhoi crynodeb o'r prif ddarpariaethau
- mynd i'r sesiynau hyfforddi ynghylch y Cod ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned a chymryd rhan ynddynt
- mynd i gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau i arsylwi ar y trafodion
- cyflwyno gweithdrefnau sy'n caniatáu i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd Pwyllgor i gyflwyno cais am ollyngiad yn bersonol
- rhoi cyngor i Gynghorwyr ynglŷn â cheisiadau am ollyngiad

### **Y Flaenraglen Waith**

Bydd Blaenraglen Waith yn eitem sefydlog ar bob un o agendâu'r Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor adolygu a diweddarau rhaglen waith y Pwyllgor.

Mae Blaenraglen Waith ddrafft ynghlwm i'w hystyried (Atodiad 1)

**Argymhellion:**

1) ystyried, adolygu a diweddarau'r Flaenraglen  
Waith ddrafft gyfredol. **(Atodiad 1)**

**Enw Cyswllt:** Lisa Evans  
**Swydd:** Swyddog Craffu a Safonau  
**Dyddiad yr adroddiad:** 1 Tachwedd 2023  
**Acronymau:**